Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Noson Agored** – Rhoddir cyfle i chwi drafod datblygiad addysgol eich plentyn ar nos Lun, Mawrth 19eg, 3.45 – 6 o'r gloch. Mi fydd angen i chwi nodi enw eich plentyn ar bwys amser sy'n gyfleus i chwi – mae'r daflen yma ar ddrws dosbarth eich plentyn . Mi fydd yr un drefn yn bodoli ar gyfer gweld Cathryn Pridmore o'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Blwyddyn 5 a 6 – Arddangosfa Wyddoniaeth** – mi fydd disgyblion Bl 5 a 6 yn cerdded i'r Brifysgol ar fore dydd Mawrth, Mawrth 13eg er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy gwyddonol. Mi fydd angen dillad, esgidiau addas a chot law. Mi fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol erbyn cinio.

**Gweithgareddau dawns gyda Heini** – mi fydd disgyblion y Meithrin, Derbyn, Bl 1, 2, 3 a 4 yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau dawnsio gyda Heini ar ddydd Mawrth, Mawrth 13eg – gofynnir yn garedig am gyfraniad o £1.00 y plentyn – cofiwch ddillad ac esgidiau addas.

**Eisteddfod Offerynnol yn yr Hen Goleg** – cofiwch fod y bws yn gadael yn brydlon am 8.45 ar fore dydd Mercher, Mawrth 14eg – mi fydd angen gwisg ysgol a phecyn bwyd.

**Eisteddfod Ddawns yn Ysgol Bro Teifi** – cofiwch fod y bws yn gadael yn brydlon am 8.30 ar fore dydd Gwener, Mawrth 16eg – mi fydd angen eich gwisgoedd dawnsio a phecyn bwyd.

**Trawsgwlad Dyfed yng Nghaerfyrddin** – os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Dyfed yng Nghaerfyrddin am 4.30 ar nos Iau, Mawrth 15fed yna mae angen i chwi roi gwybod i Mr Dyfed Jones erbyn ddydd Mercher, Mawrth 14eg. Gofynnir yn garedig i rieni wneud trefniadau cludiant.

**Prynhawn Coffi y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon** – gobeithio y bydd modd i chwi gefnogi'r Prynhawn Coffi ar ddydd Iau, Mawrth 22ain, 3.30 – 4.30.

**Blwyddyn 3 a 4 – gweithgareddau chwaraeon** – mi fydd disgyblion Bl 3 a 4 yn cerdded i'r Brifysgol ar fore dydd Gwener, Mawrth 23ain er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy chwaraeon. Mi fydd angen dillad, esgidiau addas a chot law. Mi fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol erbyn cinio.

**Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion** – dydd Sadwrn, Mawrth 24ain ym Mhontrhydfendigaid – rhagor o fanylion i ddilyn.

**Gwyliau'r Pasg** – mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30 ar ddydd Iau, Mawrth 29ain ac yn ail agor ar ddydd Mawrth, Ebrill 17eg.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth**
**12/03/2018**

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

***Open Evening** – You will be given an opportunity to discuss your child's educational development on Monday evening, March 19th, 3.45 – 6 o'clock. You will need to note your child's name by a time that is suitable to you – the appointment sheet is on your child's classroom door. The same arrangement will be in place to see Cathryn Pridmore from the Additional Educational Needs Department.*

***Years 5 and 6, Science Exhibition** – years 5 & 6 pupils will be walking to the University on Tuesday morning, March 13th to take part in a science workshop. Suitable clothing, footwear and a rain coat will be needed. Pupils will return to School for lunch.*

***Dance activities with Heini** – Nursery, Reception, Yrs 1, 2, 3 and 4 pupils will be taking part in dance activities with Heini on Tuesday, March 13th. We kindly ask for a contribution of £1.00. Please remember suitable clothing and footwear.*

***Instrumental Eisteddfod** – please remember that the bus will depart promptly at 8.45 on Wednesday, March 14th. School uniform and a packed lunch will be required.*

***Dance Eisteddfod at Bro Teifi School** – please remember that the bus will depart promptly at 8.30 on Friday, March 16th. Dance outfits and a packed lunch will be required.*

***Dyfed Cross Country** – If you wish to take part in the Dyfed Cross Country races at 4.30 on Thursday, March 15th in Carmarthen then please contact Mr Dyfed Jones by Wednesday, March 14th. Parents are kindly asked to arrange transport.*

***PTA Coffee Afternoon** – I hope that you will be able to support the Coffee Afternoon on Thursday, March 22nd 3.30 – 4.30.*

***Years 3 and 4 – sport activities** – Year 3 & 4 pupils will be walking to the University on Friday morning, March 23rd to take part in sport activities. Suitable clothing, footwear and a rain coat will be needed. Pupils will return to School for lunch.*

***Ceredigion Urdd County Eisteddfod** – Saturday, March 24th at Pontrhydfendigaid – more details to follow.*

***Easter Holidays** – the school will close at 3.30 on Thursday, March 29th and will re-open on Tuesday, April 17th.*

***<u>If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.</u>***

***R C Williams, Pennaeth 12/03/2018***